

Trefnu a Hwyluso... Cyfarfodydd Dwyieithog ac Achlysuron Cyhoeddus

GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES

Rhestr Wirio:

Canllaw i swyddogion sy'n trefnu cyfarfodydd gyda mwy nag un person/sefydliad gwahoddedig, cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd neu achlysur cyhoeddus.

Cwblhewch y rhestr wirio yma'n electronig a chadw cofnod ohoni at ddibenion archwilio mewnlol ac allanol, pan fo angen.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn a yw person(au)/sefydliadau yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod ac, os felly, rhaid inni wneud y darpariaethau perthnasol yn unol â'u dymuniadau.

Yn ogystal â'r rhestr wirio, cynghorir swyddogion i fwrw golwg ar ein canllawiau ar drefnu a hwyluso cyfarfodydd dwyieithog

► [inform/en/supportservices/translationandwelshservices/helpsheetsandposters/relateddocuments/bilingualmeetings.pdf](https://www.gov.wales/inform/en/supportservices/translationandwelshservices/helpsheetsandposters/relateddocuments/bilingualmeetings.pdf)

Pwnc / Enw'r Cyfarfod neu Achlysur	
Dyddiad y Cyfarfod / Achlysur	
Lleoliad y Cyfarfod / Achlysur Nodwch os caiff ei gynnal ar-lein	
Cyfarwyddwr Gwasanaeth / Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr Gwasanaeth	
Maes Gwasanaeth	
Swyddog sy'n trefnu'r cyfarfod / achlysur	
Swyddog sy'n cwblhau'r rhestr wirio	
Dyddiad cwblhau	

Mae unrhyw drydydd parti sy'n trefnu cyfarfodydd neu achlysuron cyhoeddus o'r fath ar ran y Cyngor (e.e. ysgolion) hefyd yn ddarostyngedig i'r un gofynion a dylen nhw hefyd gwblhau'r rhestr wirio yma a'i chyflwyno i'r swyddog cyswllt perthnasol.

Gallai methu â chwblhau'r rhestr wirio yma a chydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Safonau'r Gymraeg arwain at archwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Os oes unrhyw broblemau neu os oes gyda chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch *
Swyddogiaith@rctcbc.gov.uk

*Gan ganiatáu digon o amser cyn y cyfarfod

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.
You are welcome to communicate with us in Welsh.

Rhowch **X** yn y blwch sy'n disgrifio orau y math o gyfarfod rydych chi'n ei drefnu, ac yna ewch ati i gwblhau'r rhestr wirio berthnasol isod:

i	Cyfarfod rhwng y Cyngor a'r person(au) neu sefydliad gwahoddedig.	
ii	Cyfarfod sy'n ymwneud â lles un neu ragor o bobl (yn fewnlol ac yn allanol).	
iii	Cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd lle mae'r cyhoedd neu gyfran o'r cyhoedd wedi cael gwahoddiad cyffredinol (trwy RSVP/dim RSVP). Dydy hyn ddim yn berthnasol i gyfarfodydd sydd dim ond ar agor i bobl benodol sydd wedi cael gwahoddiad.	
iv	Achlysur cyhoeddus sydd wedi'i drefnu gan y Cyngor, neu achlysur cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ariannu o leiaf 50% ohono. e.e cynhadledd, ffair yrfaeod, arddangosfa, ac ati	



RHONDDA CYNON TAF

Cwblhewch...

Os ydych chi'n trefnu / hwyluso cyfarfod...

Rhwng y cyngor a pherson(au) neu sefydliad gwahoddedig:

Camau gweithredu



Unrhyw sylwadau ychwanegol

<p>1 Llunio a rhannu fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol o unrhyw wahoddiadau ac agendâu ymhell ymlaen llaw.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>2 Nodi'n glir ar unrhyw wahoddiad neu agendâu y mae croeso i wahoddedigion siarad Cymraeg yn y cyfarfod a bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>3 Nodi terfyn amser clir a chadarn o ran dewis iaith y gwahoddedigion a gwnewch gofnod ohono i gyfeirio ato yn y dyfodol.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>4 Os bydd 10% neu fwy o'r gwahoddedigion yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, trefnwch fod gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>5 A oes modd cynnal y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ar gyfer cynulleidfa Gymraeg ei hiaith – e.e. aelod o staff sy'n siarad Cymraeg / sesiynau iaith ar wahân.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>6 Rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymraeg ymhell ymlaen llaw i drefnu cyfieithydd ar-y-pryd.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>7 Os bydd angen cyfieithydd, sicrhau ei fod wedi derbyn y dogfennau perthnasol mewn perthynas â'r cyfarfod a bod cyd-destun y cyfarfod/pwnc yn cael ei egluro iddo.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>8 Sicrhau bod unrhyw ddogfennau a rennir mewn perthynas â'r cyfarfod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>9 Sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y cyfarfod (e.e. Cyflwyniadau PowerPoint) ar gael yn y Gymraeg ac nad yw deunyddiau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw ddeunyddiau Saesneg, p'un a yw'r trothwy 10% wedi'i gyrraedd ai peidio. Mae hyn hefyd yn cynnwys arwyddion cyffredinol o amgylch yr ystafell/adeilad ble caiff y cyfarfod ei gynnal.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol

Os ydych chi'n trefnu / hwyluso cyfarfod...**Sy'n ymwneud â lles un neu ragor o bobl:****Camau gweithredu****Unrhyw sylwadau ychwanegol**

<p>1 Nodi a yw'r cyfarfod yn ymwneud â lles yr unigolyn(unigolion) a wahoddwyd o dan Adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol 2014.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>2 Llunio a rhannu fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol o unrhyw wahoddiadau ac agendâu ymhell ymlaen llaw.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>3 Nodi'n glir ar unrhyw wahoddiad neu agendâu y mae croeso i wahoddedigion siarad Cymraeg yn y cyfarfod a bod cyfleusterau cyfieithu ar-y-pryd ar gael neu y cynhelir y sesiwn yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo modd.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>4 Nodi terfyn amser clir a chadarn o ran dewis iaith y gwahoddedigion a gwnewch gofnod ohono i gyfeirio ato yn y dyfodol.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>5 Os yw gwahoddedigion yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod, trefnwch wasanaeth cyfieithu ar-y-pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg – efallai y bydd angen mwy nag un cyfieithydd.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>6 Rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymraeg ymhell ymlaen llaw i drefnu cyfieithydd ar-y-pryd.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>7 Os bydd angen cyfieithydd, sicrhau ei fod wedi derbyn y dogfennau perthnasol mewn perthynas â'r cyfarfod a bod cyd-destun y cyfarfod/pwnc yn cael ei egluro iddo.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>8 Sicrhau bod unrhyw ddogfennau a rennir mewn perthynas â'r cyfarfod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>9 Sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y cyfarfod (e.e. Cyflwyniadau PowerPoint) ar gael yn y Gymraeg ac nad yw deunyddiau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw ddeunyddiau Saesneg.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol

Cwblhewch...

Os ydych chi'n trefnu / hwyluso cyfarfod... sydd ar agor i'r cyhoedd

Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd lle mae'r cyhoedd neu gyfran o'r cyhoedd wedi cael gwahoddiad cyffredinol: ****Dydy hyn ddim yn berthnasol i gyfarfodydd sydd dim ond ar agor i bobl benodol sydd wedi cael gwahoddiad****

Camau gweithredu



Unrhyw sylwadau ychwanegol

<p>1 Llunio a rhannu fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol o unrhyw ddeunydd cyhoeddus sy'n ymwneud â'r cyfarfod/achlysur.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>2 Hysbysu trwy wahoddiadau/agendâu bod croeso i unrhyw un sy'n dod i'r cyfarfod siarad Cymraeg yn y cyfarfod drwy ddefnyddio'r testun safonol: Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod dim ond i chi roi gwybod inni ymlaen llaw. You are welcome to use Welsh at the meeting, just let us know in advance should you wish to do so. *Os nad oes angen gwahoddiad ar gyfer 'hysbysiad ymlaen llaw' o bresenoldeb neu ddewis iaith, rhaid ichi drefnu bod Swyddog sy'n siarad Cymraeg neu Gyfieithydd yn bresennol.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>3 Gofyn a oes unrhyw gyfranwyr yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>4 Os oes gyda chi ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg, ystyriwch gynnal sesiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>5 Fel arall, trefnwch wasanaeth cyfieithu ar-y-pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg oni bai bod neb wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>6 Rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymraeg ymhell ymlaen llaw i drefnu cyfieithydd ar-y-pryd.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>7 Os bydd angen cyfieithydd, sicrhau ei fod wedi derbyn y dogfennau perthnasol mewn perthynas â'r cyfarfod a bod cyd-destun y cyfarfod/pwnc yn cael ei egluro iddo.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>8 Sicrhau bod unrhyw ddogfennau a rennir mewn perthynas â'r cyfarfod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>9 Sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y cyfarfod ar gael yn y Gymraeg ac nad yw deunyddiau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw ddeunyddiau Saesneg cyfatebol.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>10 Sicrhau bod deunyddiau Saesneg yn nodi'n glir Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>11 Cyhoeddi ar lafar drwy gydol y cyfarfod bod croeso i'r rhai sy'n bresennol siarad Cymraeg, bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, a bod modd ateb unrhyw gwestiynau / sylwadau a wneir yn Saesneg yn Gymraeg.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol

Cwblhewch...

Os ydych chi'n gyfrifol am...

Achlysur cyhoeddus wedi'i drefnu gan y cyngor, neu achlysur cyhoeddus y mae'r cyngor yn ariannu o leiaf 50% ohono

Cynhadledd, ffair yrfaeodd, arddangosfa, ac ati

Camau gweithredu



Unrhyw sylwadau ychwanegol

<p>1 Sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n hysbysebu'r achlysur ar gael yn ddwyieithog a sicrhau nad yw deunyddiau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na deunyddiau Saesneg.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>2 Sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos yn yr achlysur ar gael yn y Gymraeg ac nad yw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag unrhyw ddeunyddiau Saesneg cyfatebol.</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol
<p>3 Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr achlysur (er enghraifft, mewn perthynas â'r gwasanaethau a gynigir i bobl sy'n dod i'r achlysur, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn yr achlysur ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir yn yr achlysur).</p>		<input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol